CYLCHLYTHYR RHWYDWAITH GWEITHGAREDDAU ANTUR Y FRO - IONAWR 2021

Croeso i rifyn cyntaf Cylchlythyr Rhwydwaith Gweithgareddau Antur y Fro, gobeithiwn y mwynhewch chi ddarllen am hynt a helynt y misoedd diwethaf.

Cyfraniadau

Os hoffech gyfrannu erthygl neu ymuno â Rhwydwaith Gweithgareddau Antur y Fro, cysylltwch â: Paul Donovan.

Rhif Ffôn: 07970871711

E-bost: escape.routes@btinternet.com

Gweledigaeth a Chenhadaeth

Y weledigaeth y cytunodd y Rhwydwaith arni yw: **'Arferion awyr agored cynaliadwy, pleserus, parchus a chyfrifol ar gyfer Bro Morgannwg iach'.**

Y genhadaeth yw: **'datblygu ymagwedd gydlynol yn y sector gweithgareddau antur ehangach trwy fanteisio ar brofiad, sgiliau a gwybodaeth ei aelodau a'r bobl y maent yn eu cyrraedd i hwyluso ei weledigaeth.'**

Porth Rhithwir

Mae'r Rhwydwaith wedi sefydlu ei borth rhithwir ei hun i'w holl aelodau ei ddefnyddio, gan eu galluogi i gyfathrebu â'i gilydd a rhannu meddyliau/syniadau i gynorthwyo wrth ddatblygu rhwydweithiau.

Y ffordd tuag at sefydlu rhwydwaith gweithgareddau antur yn y Fro

Yn 2018, comisiynodd Bro Morgannwg (BM) drwy'r tîm Cymunedau Gwledig Creadigol (CGC), Sefydliad Twristiaeth Antur Cymru i gynnal astudiaeth ddichonoldeb i bennu math yr 'antur' sy'n briodol i'w 'arfordir', a thynnu sylw at rai o'i ganfyddiadau drwy ddigwyddiad arddangos. Drwy ddigwyddiad ymgynghori agored gyda rhanddeiliaid perthnasol, nifer o sesiynau ymgysylltu 1:1 a dau arolwg, cwblhaodd y Sefydliad Twristiaeth Antur ei ymchwiliad yn 2019, gan arwain at adroddiad a nododd ystod o argymhellion strwythuredig (tymor byr, canolig a hirdymor) i CGC

Mae'r Canllawiau Brand ar ffurf drafft ar hyn o bryd ond cytunir arnynt cyn bo hir, a fydd yn galluogi dealltwriaeth glir o sut a phryd dylid defnyddio'r Brand.

Nodau ac Amcanion

Mae'r aelodau wedi nodi pum nod ac amcan craidd. Eu diben yw darparu:

- dull cyfathrebu i'r aelodau;
- rôl ragweithiol wrth weithio gyda sefydliadau lleol perthnasol a chael dylanwad cadarnhaol arnynt;
- dull cefnogi aelodau, gan gynnig llwybr i gael cyngor ac ymgynghori;
- 'hyb' ar gyfer hyfforddiant perthnasol a rhannu 'arfer gorau';
- cymorth wrth hyrwyddo/ymgymryd â phrosiectau gwella'r amgylchedd.

BM eu hystyried a'u blaenoriaethu yn ei raglen waith dros y pum

mlynedd nesaf.

Argymhellion tymor byr

Nododd yr adroddiad 15 o argymhellion tymor byr, a blaenoriaethodd CGC ddau ohonynt, a rhoddwyd dyraniad o arian ar gael i sefydlu rhwydwaith gweithgareddau yn y Fro a datblygu porth ar-lein.

Gyda Paul Donovan o Escape Routes yn hwyluso, cynhaliodd Rhwydwaith Gweithgareddau Antur y Fro ei gyfarfod cyntaf ym mis Hydref 2020. Mae'r diddordeb mewn bod yn rhan o'r rhwydwaith hwn wedi tyfu dros y misoedd diwethaf, gyda 26 o bobl o amrywiaeth o fusnesau a sefydliadau yn ymuno.

Mae sgyrsiau yn ystod y pedwar cyfarfod a gynhaliwyd hyd yma wedi cynnwys pynciau megis: diffiniad y Rhwydwaith o antur a gweithgareddau cysylltiedig; beth yw gweledigaeth a chenhadaeth y rhwydwaith; sut mae'r rhwydwaith yn dymuno cael ei lywodraethu; beth gallai hunaniaeth y rhwydwaith fod.

Mae pandemig presennol Covid-19 wedi golygu bod y rhan fwyaf o gyfarfodydd y rhwydweithiau wedi bod dros y we, ond pan laciwyd y cyfyngiadau ar ddechrau mis Rhagfyr, cynhaliwyd cyfarfod cerdded ar hyd Arfordir Treftadaeth Morgannwg. Y gobaith yw y

bydd cyfarfodydd yn y dyfodol yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau ochr yn ochr â sgyrsiau yr un mor bwysig ynghylch datblygiad parhaus a chynaliadwyedd y rhwydwaith.